# 2.3.4. (b) Mentrau'r Llywodraeth a deddfwriaeth gyfredol sy'n ceisio cynnal system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gynaliadwy yng Nghymru

cbac wjec

### Gweithio mewn partneriaeth

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n dwyn cyfraith gwasanaethau cymdeithasol ynghyd a'i moderneiddio drwy'r egwyddorion canlynol:

- Llais a rheolaeth
- Atal ac ymyrryd yn gynnar
- Llesiant

Rhaglenni maeth a gweithgarwch corfforol cyfunol mewn lleoliadau allweddol:

- Rhaglen Cychwyn Iach
- Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru
- Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd
- Bwyd a Maeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant – Canllawiau arferion gorau
- Adnoddau Chwaraeon ac Aml-sgiliau'r Ddraig
- Rhaglen y Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol
- Canllaw Bwyta'n Dda
- Newid am Oes
- Menter 5x60

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ei nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y dyfodol.

- Nodau llesiant
- Egwyddorion datblygu cynaliadwy
- Dyletswydd llesiant

### Gofal iechyd darbodus

Llunio GIG Cymru mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth, yn cyfrannu at ganlyniadau gwell ac yn gynaliadwy.

Mae'r egwyddorion yn:

1. Cyflawni iechyd a llesiant gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr iechyd proffesiynol fel partneriaid cyfartal yn y broses drwy gydgynhyrchu.
2. Gofalu am y rhai â'r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf, gan ddefnyddio'r holl sgiliau ac adnoddau yn effeithiol.
3. Gwneud yr hyn sydd ei angen – dim mwy, dim llai; a pheidio ag achosi niwed.
4. Lleihau amrywio amhriodol drwy ddilyn arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw.

### Cyngor a gwybodaeth am ffordd o fyw, cyfeirio at ymyriadau/gwasanaethau iechyd y cyhoedd

- Her Iechyd Cymru
- Ymgyrch Trechu'r Ffliw